



The Planning Inspectorate Yr Arolygiaeth Gynllunio

Deddf Cynllunio 2008 – adran 91

Cais gan Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer prosiect Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr (Cyf EN010112)

Agenda ar gyfer Gwrandawriad Mater Penodol 1 (ISH1) yn delio â materion yn ymwneud â'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO): Dydd Mercher 21 Medi 2022 am 10:00am.

Darparwyd hysbysiad o'r dyddiad, amser a chyfarwyddiadau mynychu ar gyfer ISH1 yn [llythyr Rheol 6](#) yr Awdurdod Archwilio dyddiedig 23 Awst 2022. Caiff diben ISH1 ei egluro yn y llythyr hwnnw hefyd, yn Atodiad F.

Dyddiad:	Dydd Mercher 21 Medi 2022
Seddau ar gael/ Cynhadledd Trefniadau o:	9.15am
Amser dechrau'r cyfarfod:	10.00am
Lleoliad:	Digwyddiad rhithwir (Microsoft Teams¹) ac Ystafell y Stiwdio, Venue Cymru, Promenâd, Llandudno LL30 1BB
Mynediad a pharcio:	Mae Venue Cymru yn gweithredu maes parcio Talu ac Arddangos yng nghefn yr adeilad, gyda baeau parcio dynodedig i bobl anabl i'r chwith o'r brif fynedfa. Mae lle parcio ar gael ar y Promenâd hefyd, sef trefn Talu a Pharcio hyd nes 4pm, ac ar ôl hynny mae'n ddi-dâl. Gellir cael rhagor o wybodaeth yma.

Cynhadledd Trefniadau (os ydych chi'n mynychu'n rhithwir)

Ymunwch â'r gynhadledd am 9:15. Bydd y Tîm Achos yn eich derbyn o'r lobi ac yn cofrestru eich presenoldeb.

Lle bo angen, bydd egwylion yn cael eu darparu yn ystod y Gwrandawriad Mater Penodol i gydnabod y gorflinder sy'n gysylltiedig â chyfathrebu ar-sgrin yn ystod

¹ Bydd cyfarwyddiadau llawn ynglŷn â sut i ymuno ar-lein neu dros y ffôn yn cael eu darparu cyn y cyfarfod i'r rheiny sy'n cofrestru i gymryd rhan
Prosiect Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr
Gwrandawriad Mater Penodol 1

digwyddiadau rhithwir.

Agenda

1. Croeso, cyflwyniadau a threfniadau ar gyfer y gwrandawriad

2. Erthyglau ac Atodlenni (gan gynnwys Gofynion) y dDCO [AS-014], [AS-015].

- Gofynnir i'r Ymgeisydd ddarparu trosolwg byr iawn o bob rhan o'r dDCO.
- Gofynni'r i'r Ymgeisydd amlygu'n fras y newidiadau sydd wedi'u gwneud i'r dDCO ers fersiwn y cyflwyniad gwreiddiol.
- Gofynnir i'r Ymgeisydd egluro sut mae'r dDCO yn sicrhau mesurau lliniaru
- Bydd yr Awdurdod Archwilio yn gofyn cwestiynau wedyn yn ymwneud ag Erthyglau, Atodlenni a Gofynion y dDCO, gan geisio ymatebion, lle bo'n briodol, gan yr Ymgeisydd a Phartïon â Buddiant. Yn hyn o beth, ymhlith pethau eraill, byddai'r Awdurdod Archwilio'n dymuno gofyn cwestiynau ynglŷn â'r canlynol:
 - Y diffiniad o 'dechrau / commence' yn Erthygl 2;
 - Cymhwyso ac addasu darpariaethau deddfwriaethol yn Erthygl 7;
 - Y diben a'r cyfiawnhad ar gyfer Erthygl 43;
 - Adolygiad o gwmpas Atodlen 1, Rhan 2, Gwaith ategol;
 - Gweithrediad Atodlen 2, Gofyniad 2, Tabl 3 a Gofyniad 7, Tabl 4;
 - Gofynion posibl yn ymwneud â sgiliau a chyflogaeth a diogelwch hedfanaeth; a
 - Chyfyngiadau amser gweithredol a datgomisiynu.
- Gwahoddir Partïon â Buddiant i ofyn cwestiynau o eglurhad mewn perthynas ag Erthyglau, Atodlenni a Gofynion y dDCO.

3. Atodlen 9 – Darpariaethau Diogelu

- Cael diweddariad ar gynnydd rhwng partïon mewn perthynas â darpariaethau diogelu ac eglurhad o unrhyw wahaniaethau barn pwysig a graddfa amser ar gyfer datrys.

4. Caniatadau, trwyddedau a chytundebau eraill

- Gofynnir i'r Ymgeisydd ddarparu diweddariad am gynnydd a'r graddfeydd amser ar gyfer cwblhau. Wedyn, bydd yr Awdurdod Archwilio yn gofyn cwestiynau, gan gynnwys trafod p'un a oes unrhyw gytundebau cyfreithiol yn cael eu cynnig, ac a oes graddfa amser ddangosol ar gyfer eu cwblhau.
- Bydd yr Awdurdod Archwilio yn gofyn am farnau gan yr Ymgeisydd a'r Partïon â Buddiant ar y cysylltiadau a'r berthynas rhwng y dDCO a'r Drwydded Forol, a'r angen neu fel arall am ofynion cyfatebol neu debyg yn y ddwy ddogfen.

5. Datganiadau Tir Cyffredin

Prosiect Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr
Gwrandawriad Mater Penodol 1

- Bydd yr Awdurdod Archwilio yn gofyn i'r Ymgeisydd ddarparu diweddariad ar y Datganiadau Tir Cyffredin sy'n berthnasol i'r dDCO.

6. Adolygiad o faterion a chamau gweithredu sy'n codi

- Bydd yr Awdurdod Archwilio yn mynd i'r afael â'r modd y mae unrhyw gamau gweithredu a bennwyd i'r Ymgeisydd i'w bodloni, ac yn ystyried yr ymagweddau at yr archwiliad o'r dDCO ac unrhyw newidiadau iddo, yng ngoleuni materion a godwyd.

7. Unrhyw faterion eraill

8. Cau'r gwrandawriad

Nodiadau ar gymryd rhan, cynnal a rheoli'r gwrandawriad

Gwahoddir pob Parti â Buddiant i fynychu gwrandawiadau mater penodol. Bydd y digwyddiad yn cael ei ffrydio'n fyw hefyd, a bydd dolen ar gyfer gwyllo'r ffrydiad byw yn cael ei bostio ar dudalen y prosiect ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol yn nes at ddyddiad y digwyddiad.

Mae hawl gan bob Parti â Buddiant wneud sylwadau llafar yn y Gwrandawriad. Fodd bynnag, mae hyn yn ddarostyngedig i bŵer yr Awdurdod Archwilio i reoli'r Gwrandawriad.

Byddai o gymorth i'r Awdurdod Archwilio pe bai'r mynychwyr canlynol yn cymryd rhan yn ISH1:

- **Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited** (yr Ymgeisydd) - gan gynnwys cynrychiolwyr yr Ymgeisydd sydd mewn sefyllfa i drafod y materion ar yr agenda:
- **Cyngor Sir Ddinbych** (DCC);
- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** (CCBC);
- **Cyngor Sir Ynys Môn** (IACC);
- **Cyfoeth Naturiol Cymru** (NRW);
- **North Hoyle Wind Farm Limited**;
- **Rhyl Flats Wind Farm Limited**; ac
- **Unrhyw Bartion eraill â Buddiant** (IPs) - sydd â diddordeb yn nrafftio'r dDCO, gweithredu neu gyflawni erthyglau arfaethedig, gofynion neu ddarpariaethau eraill.

Gall cyfranogwyr gael cynrychiolaeth gyfreithiol os dymunant, ond bydd y gwrandawriad yn cael ei gynnal i sicrhau nad yw cynrychiolaeth gyfreithiol yn ofynnol. Mae arweiniad o dan Ddeddf Cynllunio 2008 (PA2008) a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 yn amodi mai'r Awdurdod Archwilio fydd yn holi, profi ac yn asesu'r dystiolaeth drwy gwestiynu'n uniongyrchol yr unigolion sy'n gwneud

sylwadau llafar mewn gwrandawiadau. Bydd y cwestiynu yn y gwrandawriad yn cael ei arwain gan yr Awdurdod Archwilio.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau y bydd y materion yn cael eu trafod ar y diwrnod y trefnwyd iddynt gael eu trafod. Bydd y gwrandawriad yn gorffen cyn gynted ag y bydd yr Awdurdod Archwilio o'r farn fod pawb sy'n bresennol wedi cael dweud eu dweud ac yr ymdriniwyd â'r holl faterion. Os oes materion ychwanegol i ymdrin â nhw, neu gyflwyniadau sy'n mynd â chryn amser mewn unrhyw wrandawriad, gall fod yn angenrheidiol blaenoriaethu materion a gohirio rhai eraill i gwestiynau ysgrifenedig.

Canllaw yn unig yw'r agenda. Nid yw wedi'i gynllunio i fod yn gyfyngol nac yn gyflawn. Gall yr Awdurdod Archwilio ychwanegu materion eraill i'w hystyried, gall newid y drefn ar gyfer ystyried materion a bydd yn ceisio dyrannu digon o amser i bob mater er mwyn galluogi rhoi ystyriaeth briodol iddynt. Nid yw diffyg trafodaeth ar fater penodol mewn gwrandawriad yn atal archwiliad pellach o'r mater hwn, gan gynnwys gofyn cwestiynau ysgrifenedig ychwanegol.

Darperir holl ddogfennau'r Archwiliad gyda rhif adnabod unigryw at ddibenion cyfeirio a ddangosir mewn cromfachau sgwâr [].

Dylai'r dystiolaeth a gyflwynir ar lafar yn ISH1 gael ei chynnwys mewn cyflwyniadau ôl-gwrandawriad a'u cyflwyno erbyn **Dydd Llun 24 Hydref 2022 (Terfyn Amser 1)**.

Trefniadau wrth gefn

Bydd yr Awdurdod Archwilio yn ymdrechu i wrando ar yr holl gyfranogwyr. Os nad yw'r Gwrandawriad Mater Penodol, neu rannau ohono, yn gallu mynd rhagddo, er enghraifft oherwydd rhesymau technegol, yna gall yr Awdurdod Archwilio ohirio busnes anghyflawn i wrandawiadau neilltuedig nes ymlaen yn Amserlen yr Archwiliad. Bydd hysbysiad o unrhyw ohiriadau yn cael ei roi ar dudalen y prosiect ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol.

Microsoft Teams

Bydd y Gwrandawriad Mater Penodol yn cael ei gynnal fel digwyddiad mynychu'n bersonol a rhithwir gan ddefnyddio Microsoft Teams. Gellir cael rhagor o wybodaeth am ddigwyddiadau rhithwir yn ymwneud â Phrosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol yn Nodyn Cyngor 8.6 yr Arolygiaeth Gynllunio: Digwyddiadau archwilio rhithwir:

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/legislation-and-advice/advice-notes/advice-note-8-6-virtual-examination-events/>

Gellir cael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys fideo byr ynglŷn â chymryd rhan mewn digwyddiad rhithwir yr Arolygiaeth Gynllunio, ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio:

<https://www.gov.uk/government/publications/planning-inspectorate-virtual-events-guide-to-participating>

Cysylltwch â'r Tîm Achos os oes unrhyw gwestiynau gennych ynglŷn â defnyddio Microsoft Teams neu os hoffech gynnal prawf ar eich trefniadau mynediad:

awelymor@planninginspectorate.gov.uk

0303 444 5000